Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd** : | Swyddog Datblygu/ Digwyddiadau Chwaraeon | **Lleoliad** : | Ceredigion a Sir Benfro |
| **Adran** : | Chwaraeon | **Cyflog** : | Graddfa 4: £29,409 - £31,430 y flwyddyn |
| **Oriau Gwaith** : | Llawn amser (35 awr yr wythnos) | **Cytundeb** : | 12 mis (cyfnod mamolaeth) |
| **Yn adrodd i** : | Rheolwyr Chwaraeon | **Rheolaeth Llinell** : | Prentisiaid a Chydlynwyr os yn berthnasol |

**Prif bwrpas y swydd**:

Cynyddu cyfranogiad plant a phobl ifanc mewn gweithgareddau chwaraeon, clybiau a chystadlaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog, trwy ddatblygu darpariaeth chwaraeon a chydlynu digwyddiadau o safon uchel. Mae'r rôl hefyd yn cynnwys recriwtio, mentora a datblygu gwirfoddolwyr, a sicrhau profiad diogel a chadarnhaol i bawb sy'n cymryd rhan.

---

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau**:

1. Cynllunio, datblygu a darparu rhaglen wythnosol o weithgareddau chwaraeon mewn ysgolion a'r gymuned.
2. Trefnu a chydlynu cystadlaethau a digwyddiadau chwaraeon rhanbarthol.
3. Datblygu a gweithredu cynlluniau marchnata i hyrwyddo gweithgareddau a digwyddiadau.
4. Recriwtio, mentora a datblygu hyfforddwyr, gwirfoddolwyr a dyfarnwyr.
5. Gweithio tuag at dargedau cyfranogiad ac ariannol, gan gynnwys sicrhau grantiau a noddwyr.
6. Sicrhau iechyd, diogelwch a lles pawb drwy gynnal asesiadau risg a monitro lleoliadau
7. Cadw cofnodion, monitro perfformiad a chasglu data cyfranogiad.
8. Ysgrifennu adroddiadau a rhannu arferion da gyda rhanddeiliaid a rheolwyr.
9. Cydweithio gyda phartneriaid, ysgolion a sefydliadau i ddatblygu a chryfhau darpariaeth chwaraeon.

10. Cynorthwyo gyda chynllunio a darparu gweithgareddau gwyliau a digwyddiadau cenedlaethol.

11. Unrhyw gyfrifoldebau arall ynghlwm gyda'r adran.

---

**Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad**

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

| **Hanfodol**: | **Dymunol**: |
|---|---|
| 1. Bydd angen meddu ar drwydded yrru a char, neu'r gallu i deithio'n gwbl hyblyg ac annibynnol er mwyn cyflawni'r swydd hon.<br>2. Bydd hi'n angenrheidiol gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg er mwyn cyflawni'r swydd hon.<br>3. Bydd Gradd, Prentisiaeth, Cymhwyster sylweddol yn y maes chwaraeon yn hanfodol.<br>4. Profiad o drefnu a darparu clybiau a digwyddiadau chwaraeon llwyddiannus gyda phlant a phobl ifanc.<br>5. Sgiliau cyfathrebu da a phrofiad siarad gydag ystod eang o bobl (rhieni, plant a.y.b..)<br>6. Bod yn barod i weithio oriau hyblyg gan gynnwys gyda'r nos a phenwythnosau. | 1. Dealltwriaeth o nod ac amcanion Urdd Gobaith Cymru.<br>2. Profiad o weithio i dargedau heriol. |

**Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad**: Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

---

**Hyblygrwydd**: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

---

**Adolygiad**: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Mai 2026 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

---

**Gofynion**: Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar drwydded yrru llawn ac yswiriant priodol sydd â sicrwydd ar gyfer defnydd busnes.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus berchnogi'r holl rinweddau o Egwyddorion Gweithio i'r Urdd trwy gydol eu cyflogaeth.

---

**Gwiriadau Perthnasol**: Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).